**CYNGOR BRO MORGANNWG**
**SWYDDFEYDD DINESIG, HEOL HOLLTWN,**
**Y BARRI CF63 4RU**

**RHODDIR HYSBYSIAD** yn unol ag adran 44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, 'y Ddeddf', a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, bod Cyngor Bro Morgannwg, ar ôl ymgynghori â'r bobl ofynnol, yn cynnig gwneud addasiadau a reoleiddir i'r ysgolion canlynol drwy gynyddu capasiti Ysgol Y Deri i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol a chodi adeilad ysgol newydd ar y safle a ffefrir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023, a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol dan reolaeth Ysgol Y Deri.

Caiff y cynnig hwn ei ystyried o dan adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae Adran 2.3 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cyfeirio at Addasiadau a Reoleiddir i ysgol arbennig gymunedol, sy'n cynnwys cynnydd yn nifer y disgyblion y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer.

**Crynodeb o'r cynnig:**

Mae'r cynnig yn ymwneud ag Ysgol Y Deri sy'n ysgol uwchradd arbennig cyfrwng Saesneg a gynhelir gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'n darparu ar gyfer dysgwyr rhwng 3 a 19 oed ac mae ganddi gapasiti ar gyfer 1,110 o ddisgyblion. Ar hyn o bryd, mae 1,132 disgybl ar y gofrestr. Mae'r ysgol yn: Penarth Learning Community, Sully Rd, Penarth CF64 2TP

Byddai'r cynnig yn golygu y byddai darpariaeth addysgol arbenigol yn Ysgol Y Deri yn cael ei chynyddu i wneud lle i 150 o ddisgyblion ychwanegol (355 gyfan). Gan mai ysgol arbennig yw Ysgol Y Deri, byddai'r holl ddisgyblion yn cael eu derbyn i Ysgol Y Deri trwy Banel yr Awdurdod Lleol mewn ymgynghoriad ag Ysgol Y Deri a Gwasanaeth Ymgysylltu'r Cyngor. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad o anghenion disgyblion unigol.

Er mwyn gwneud lle i'r capasiti cynyddol hwn, byddai adeilad ysgol newydd yn cael ei godi ar safle newydd, a fyddai'n gweithredu dan reolaeth Ysgol Y Deri. Mae'r Cyngor wedi adnabod safle a ffefrir sydd wedi'i leoli ar bwys y datblygiad arfaethedig 'Tir yn Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog' sydd wedi cael ei ddyrannu fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) mabwysiedig y Cyngor 2011-26. Mae'r ardal hon yn darparu digon o le i godi'r adeilad ysgol newydd arfaethedig ac mae oddeutu 3 milltir o safle presennol Ysgol Y Deri. Byddai'r adeilad ysgol newydd ar gyfer disgyblion o oedran cynradd yn bennaf. Fodd bynnag, byddai'r ysgol yn gweithredu dull seiliedig ar anghenion i bennu rhaniad disgyblion ar draws y ddau safle. Byddai hyn yn lleihau'r angen i ddyblygu'r holl gyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Y Deri ar hyn o bryd.

Cynigir y byddai'r adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer mis Medi 2023. Bydd mesurau dros dro yn cael eu rhoi ar waith yn Ysgol y Deri i reoli'r gor-alw yn y cyfamser.

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i blant o oed ysgol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf. Yn unol â 'Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008'.

Bydd disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn gymwys i gael cludiant am ddim os asesir bod ganddynt anawsterau difrifol a/neu gymhleth a'u bod yn mynychu ysgol arbennig sydd 2 filltir neu fwy (disgyblion oedran cynradd) a 3 milltir neu fwy (disgyblion oedran uwchradd) o gyfeiriad cartref y rhieni yn ôl mesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Bydd y Tîm ADY yn penderfynu ar gymhwysedd disgyblion ag ADY sydd â gofynion teithio penodol na ellir eu bodloni gydag addasiad rhesymol ar gludiant prif ffrwd.

**Ymgynghoriad:**

Ymgymerodd Cyngor Bro Morgannwg â chyfnod o ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori yn cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Bro Morgannwg yn y cyfeiriad canlynol:
**www.valeofglamorgan.gov.uk/ysgolyderiexpansion**

**Cyflwyno gwrthwynebiadau:**

Yn unol ag adran 49 y 'Ddeddf', gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynnig cyn pen 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hynny yw erbyn y dydd **22 Mawrth 2021**.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i **21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk** neu:

Paula Ham,
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau,
Cyngor Bro Morgannwg,
Swyddfeydd Dinesig,
Heol Holltwn,
y Barri
CF63 4RU

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu'n ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau ar y gwrthwynebiadau hynny, pan roddir gwybod i randdeiliaid am benderfyniad y cynnig.

Llofnod:



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau
22 Chwefror 2021